COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 14 RHAGFYR 2022, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | C Davies | C L C Davies | P Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | P Ford |
| J Gebbie | W R Goode | RM Granville | H Griffiths |
| S J Griffiths | D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes |
| RM James | P W Jenkins | M R John | MJ Kearn |
| W J Kendall | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas |
| J E Pratt | E Richards | R J Smith | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | JH Tildesley MBE | G Walter |
| A Wathan | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| I Williams | MJ Williams | R Williams | E D Winstanley |
| T Wood | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A R Berrow

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Carmel Donovan | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cymunedol Integredig |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

69. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd Heidi Bennett ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda – Cwestiwn gan Della Hughes, gan ei bod hi'n gweithio mewn corff oedd yn bartner, a nodwyd yn yr ymateb.

Fe wnaeth y Cynghorydd Richard Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Pencoed yn ogystal ag aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Fe wnaeth y Cynghorydd Melanie Evans ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel aelodau o Gyngor Tref Pencoed gan gyfeirio at y cwestiwn gan y Cynghorydd Tim Thomas.

Fe wnaeth y Cynghorydd Tim Wood a’r Cynghorydd Tim Wood ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel aelodau o Gyngor Tref Pen Y Bont gan gyfeirio at y cwestiwn gan y Cynghorydd Tim Thomas.

Fe wnaeth y Cynghorydd Steve Easterbrook ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda am ei fod yn fasnachwr yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

70. CYMERADWYO’R COFNODION

PENDERFYNWYD: cymeradwyo cofnodion 22/10/22 a 16/11/22 fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar y newidiadau canlynol.

Nodwyd bod y Cynghorydd Ian Spiller yn absennol o gyfarfod 16/11/22 ond roedd yn bresennol am y cyfarfod cyfan.

Nodwyd bod y Cynghorydd Norah Clarke yn bresennol yng nghyfarfod 16/11/22 ond roedd wedi rhoi ymddiheuriad ar gyfer y cyfarfod.

71. CYFLWYNIAD I’R CYNGOR GAN GYNRYCHIOLWYR BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i hysbysu’r aelodau am gyflwyniad y cynigiwyd ei roi gan gynrychiolwyr un o bartneriaid gwaith allweddol y Cyngor, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM).

Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Cwestiynau i’r Bwrdd Iechyd:
Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod arnom eisiau integreiddio ein hiechyd a’n gofal cymdeithasol ymhellach. Fodd bynnag, mae gennym fodel gweithredu gwahanol i ôl troed gweddill y bwrdd iechyd ac felly a ydy hyn wedi cael ei gydnabod gan y bwrdd iechyd? Esboniodd cynrychiolydd y bwrdd iechyd fod yr anawsterau gyda Phen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu cydnabod a’u bod yn gwybod am y diffyg cyfleusterau ar draws bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ychwanegodd fod gan RhCT 2 ysbyty cymunedol lle roeddent yn delio â Merthyr Tudful yn ogystal. Y nod oedd defnyddio’r cyfleusterau hyn i ddelio â Phen-y-bont hefyd ar gyfer gofal mwy arbenigol fel cleifion strôc sydd wedi cael eu rhyddhau o Ysbyty Tywysoges Cymru.

Esboniodd aelod bod ei modryb wedi cael ei chymryd i’r ysbyty yn gynharach yr wythnos hon gydag amheuaeth o drawiad ar y galon ond wedi aros mewn ambiwlans am oddeutu 30 awr mewn tymheredd o -3c. Rhoddodd esiampl arall lle roedd cymydog iddi wedi dioddef strôc ac wedi cael gwybod dros y ffôn fod amser aros o 4 awr yn bosibl. Yn ffodus, gyda chymorth eraill, llwyddasant i’w gael i mewn i gar a gyrrodd hi ef i’r ysbyty lle cafodd ei weld ar unwaith.

Ychwanegodd ei bod hi ac Aelod arall mewn cyfarfod Gofal a Thrwsio ym Mhen-y-bont lle buont yn disgwyl i gynrychiolydd y bwrdd iechyd gael ei anfon at y grŵp gan eu bod yn credu y gallent gynorthwyo rhai o’r cleifion yn ogystal â disgwyl am dros 70 Grant Cyfleusterau i’r Anabl (DFG) oddi wrth Gyngor BSP i alluogi cleifion i fyw yn eu cartrefi eu hunain gydag offer/addasiadau ac yn y blaen. Gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i weithio gyda chyrff fel Gofal a Thrwsio Pen-y-bont fel y gellid rhyddhau cleifion o’r ysbyty a gofalu amdanynt yn eu cartrefi. Gofynnodd hefyd a oedd ffordd o ddefnyddio’r

cyfleusterau oedd yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod clo i ofalu am y cleifion hyn dros dro cyn iddynt fedru mynd adref.

Ar nodyn cadarnhaol, ymwelodd yn ddirybudd ag ysbyty Tywysoges Cymru rai wythnosau'n ôl ac wrth siarad â chleifion yno, roedd ganddynt bethau cadarnhaol iawn i'w dweud am y staff a'u hunig bryderon oedd gyda'r amseroedd aros.

Eglurodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd gyda golwg ar Ofal a Thrwsio Pen-y-bont eu bod yn cydweithio'n agos gyda hwy ac y byddent yn edrych i mewn i'r rhesymau pam nad oedd cynrychiolydd mewn cyfarfodydd.

Esboniodd gyda golwg ar y cyfleusterau oedd yn eu lle yn ystod y pandemig eu bod yn gallu gwneud hyn gan fod llawer o wasanaethau wedi cael eu hatal cynt oherwydd y pandemig ac felly roedd staff ac adnoddau ar gael i wneud hyn. Fodd bynnag, cytunai fod angen gwneud rhywbeth a bod cynllunio brys ei angen ac felly bod hwn yn rhywbeth y byddent yn edrych arno.

Diolchodd Aelod i gynrychiolydd y Bwrdd Iechyd am y cyfarfod diweddar a gafodd ag ef a'i gyd-aelodau yn y ward. Eglurodd mai un o'r pethau a drafodwyd oedd y pwysau ar ambiwlansys ac ysbytai o ganlyniad i bwysau'r gaeaf ond dywedodd mewn perthynas â mynediad at ofal iechyd sylfaenol ei fod wedi sylwi ar gynnydd sydyn yn nifer y trigolion oedd yn cael trafferth gyda hyn. Eglurodd ei fod wedi gorfod ysgrifennu'n ddiweddar at reolwr practis meddygfa leol ar ran dau glaf oedrannus ac er iddynt lwyddo i gael apwyntiadau ar eu cyfer, nid oedd yn ffordd gynaliadwy i'r henoed orfod cael apwyntiad. Gofynnodd am sicrwydd ynghylch sut roedd y bwrdd iechyd yn mynd i ddelio â'r pwysau ychwanegol a nifer y bobl sy'n ceisio ffonio meddygfa a'r gwasanaeth E-ymgynghori i gael apwyntiad.

Cytunai cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd fod pwysau sylweddol yn y maes hwn hefyd a'u bod wedi cael gwybod bod niferoedd mawr o alwadau yn cael eu gwneud i bractisau a bod llawer o rwystredigaeth ymhlith aelodau'r gymuned ynglŷn â hyn. Esboniodd eu bod yn gweithio'n agos gyda phractisau meddygon teulu i ganfod ffyrdd gwell o gasglu gwybodaeth am fynediad at feddygon teulu, gweld faint o alwadau oedd yn cael eu rheoli a'u trin ac roedd yn amlwg bod gwahanol bractisau'n rheoli eu systemau trefnu apwyntiadau mewn ffyrdd gwahanol ac efallai mai dyna pam roedd amrywiadau rhwng practisau. Gofynnodd i'r Aelodau sicrhau, os oedd ganddynt faterion penodol i'w codi, eu bod yn cysylltu â'r bwrdd iechyd ac y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo'n ôl i'r practisau meddygon teulu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio i wella'r hyn a allant.

Dywedodd Aelod fod gan Gymru hanes hir a balch gyda'r GIG ond bod ganddi ddyfodol tymor byr pryderus iawn yng Nghymru. Gofynnodd pa fesurau diogelu a chefnogaeth a roddwyd yn eu lle ar gyfer y staff, yr oedd llawer ohonynt ar y rheng flaen yn delio â'r argyfwng hwn, a llawer ohonynt yn drigolion y fwrdeistref sirol.

Cytunai cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd fod staff o dan bwysau aruthrol ar hyn o bryd gyda'r gofynion oedd yn cael eu gosod arnynt. Esboniodd fod yna wasanaeth lles datblygedig iawn ar gyfer staff ar draws y rhanbarth sy'n cynnwys mynediad at raglen cymorth i weithwyr, sy'n cynnig cwnsela a chymorth lles dros y ffôn ac ar-lein ac sy'n helpu gydag unrhyw straen sy'n digwydd yn y gwaith neu yn y cartref. Ychwanegodd fod y bwrdd iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd â staff ac yn gwrando ar eu pryderon ac yn ystyried unrhyw feysydd gwella lle y gellir cefnogi eu llesiant.

Holodd Aelod mewn perthynas â'r brechlynnau Covid, pam yr oedd llawer o drigolion yn cael eu hanfon i dref wahanol i'w derbyn pan oedd ganddynt ganolfan frechu yn agos at eu cartref. Eglurodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd, pan newidiwyd y model ar ddechrau 2022 pan nad oedd Ravens Court bellach i gael ei ddefnyddio fel canolfan, fod y bwrdd

iechyd wedi cael anhawster i ddod o hyd i gyfleuster lle roedd modd storio'n briodol, lle roedd mynediad i gleifion, maes parcio a chyfleuster o faint addas. Fodd bynnag, gallai cleifion ddewis newid lleoliad eu hapwyntiad pe baent yn teimlo bod y lleoliad a neilltuwyd iddynt yn rhy anghyfleus.

Soniodd Aelod, ym Mhorthcawl, fod y feddygfa leol mor anodd i ddod i gysylltiad â hi neu gael apwyntiad ynddi fel bod trigolion yn teithio i adrannau damweiniau ac achosion brys i gael eu gweld. Cymerodd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd yr adborth hwn i ffwrdd gydag ef a dywedodd y byddai'n edrych i mewn i hyn.

Gofynnwyd cwestiynau pellach i gynrychiolwyr y bwrdd iechyd sydd i'w gweld yn y ddolen gofnodi yma.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r cyflwyniad oedd i gael ei roi fel y cyfeirid ato ym mharagraff 4.1 yr adroddiad hwn.

72. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

**Y Maer:**

"Mae'n sicr yn gyfnod prysur wrth i ni fynd i mewn i dymor yr ŵyl. Mae swyddfa'r maer yn parhau i dderbyn llawer o ymholiadau a cheisiadau am ymweliadau gan y Maer. Rwyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Faer a'i gydymaith am ddod i'r adwy ar yr achlysuron hynny pan fydd gennym geisiadau lluosog. Ar nodyn personol, rwyf wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau ar eich rhan, sy'n amrywio o Ddigwyddiadau Cymunedol y Nadolig, cystadleuaeth feirniadu ffenestr siop, Gwasanaethau Carolau, ymweliad Ysbyty, Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol amrywiol sefydliadau.

Digwyddiadau dinesig y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Pleser oedd cael mynd gyda Meiri'r Trefi ym Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr i weld goleuadau'r Nadolig yn cael eu goleuo. Roedd presenoldeb anhygoel gan y cyhoedd yn y ddau ddigwyddiad sy'n dangos y pwysigrwydd a'r brwdfrydedd sydd gan y cyhoedd dros dymor y Nadolig.

Hoffwn ddiolch i'r ddau Gyngor Tref am drefnu'r ddigwyddiadau hyn.

Hoffwn hefyd ddiolch i Mr Lee Jukes a'i dîm o FM Bridgend. Roedd ei frwdfrydedd, ei egni a'i sgil wrth ddiddanu'r torfeydd mawr yn y ddau ddigwyddiad hyn yn anhygoel. Hyd yn hyn rwyf wedi cael fy ngalw'n llawer o bethau yn fy mywyd ond mae cael fy nghyflwyno gan Lee Jukes i'r dyrfa fawr ym Maesteg fel "Maer Cŵl Pen-y-bont ar Ogwr" yn rhywbeth na fyddaf yn ei anghofio. Roedd hefyd yn anrhydedd ac yn fraint cael mynychu Gwasanaeth Carolau Nadolig Gwasanaethau Brys De Cymru yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Mynychwyd y Gwasanaeth Carolau gan gynrychiolwyr a theuluoedd Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Roedd Côr Meibion Mynydd Cynffig a'r Cylch yn canu i gyfeiliant Band Heddlu De Cymru. Roedd yn ennyd falch i mi yn y Gadeirlan wrth dderbyn canmoliaeth gan lawer o unigolion pwysig dinesig o bob rhan o Dde Cymru a aeth allan o'u ffordd i ganmol perfformiad anhygoel y côr, oedd yn ddigon i yrru ias i lawr eich cefn.

Diolch unwaith eto i bawb yng Nghôr Meibion Mynydd Cynffig a'r Cylch. Rhoesoch achos inni ymfalchïo ynoch.

Hoffwn annog pob aelod a Swyddog i gyfrannu at Apêl Elusen y Maer os gwelwch yn dda? A gaf i awgrymu, yn lle anfon Cerdyn Nadolig at eich gilydd, eich bod yn cyfrannu

at gronfa'r elusen. Caiff manylion ynghylch sut y gellir rhoi rhodd eu cylchredeg cyn bo hir ar wefan CBSP.

Ac yn olaf, peidiwch ag anghofio am y broses ymgeisio am Wobr y Maer. Disgwyliaf weld cawod o geisiadau. Mae cymaint o waith da yn cael ei wneud yn ein cymunedau, gwaith ac ymrwymiad sy'n haeddu cael ei gydnabod, felly a fyddech cystal â chyflwyno eich ceisiadau erbyn y 13eg o Ionawr 2023.

Ceir manylion y broses ymgeisio ar wefan y Cyngor.

Yn olaf, ond nid lleiaf, mae un o'n haelodau heddiw yn dathlu ei ben-blwydd. A gaf i ddymuno pen-blwydd hapus i'r Cynghorydd Elaine Winstanley; gobeithio y cewch chi ddiwrnod hyfryd a noson well fyth.

**Y Cynghorydd Jane Gebbie:**

Gan mai dyma'r tro cyntaf i ni gyfarfod fel Cyngor llawn ers cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant yn dilyn llofruddiaeth Logan Mwangi, pum mlwydd oed, hoffwn roi diweddariad byr i'r aelodau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu argymhellion yr adroddiad.

Byddwch wedi gweld ein bod ni, fel awdurdod, wedi cynnig ymddiheuriad llawn a diamod i dad Logan, Ben Mwangi, a phawb a oedd yn adnabod ac yn caru Logan.

Fel y dywedasom ar y pryd, mae'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys y Cyngor, wedi derbyn canfyddiadau'r panel Adolygu Ymarfer Plant Annibynnol sydd wedi tynnu sylw at nifer o gyfleoedd i gryfhau ein hymarfer.

Gyda Bwrdd Gwella wedi ei sefydlu i oruchwylio cynnydd yn y gwelliannau sydd eu hangen ym maes gofal cymdeithasol plant, rydym yn ymroi i weithio ochr yn ochr â phartneriaid ym Mwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf i wella ein hymarfer ac effeithiolrwydd diogelu amlasiantaethol fel yr amlygwyd gan yr adolygiad.

Rhaid i wasanaethau plant wella ansawdd yr ymarfer, y ffordd y sicrheir ansawdd ein hymarfer, a'r oruchwyliaeth gan reolwyr.

Gan ein bod yn gwybod na chysylltwyd â Mr Mwangi fel y dylid bod wedi gwneud, rydym wedi gweithredu i roi arweiniad clir i staff ynghylch pwysigrwydd cysylltu â rhieni sydd â chyfrifoldeb rhiant os yw eu plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

Rydym yn gweithredu newidiadau, megis model newydd o ymarfer gwaith cymdeithasol, i wella'r ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd, a'r ffordd y mae asiantaethau'n cydweithio i rannu a gweithredu ar wybodaeth i ddiogelu ac amddiffyn.

Rydym hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod pobl ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael mwy o wybodaeth, a bod ganddynt hyder ynghylch y ffordd i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu a allai fod ganddynt.

Drwy gydol y broses anodd hon, rydym wedi bod yn gwbl dryloyw, ac wedi cydweithredu'n llawn â'r panel adolygu i sicrhau bod yr holl gyfleoedd ar gyfer dysgu wedi cael eu nodi.

Ochr yn ochr â'n partneriaid ym maes iechyd, rydym wedi mynegi tristwch dwys nad oedd ein hymdrechion diogelu ac amddiffyn plant yn ddigon i atal llofruddiaeth Logan, ac rydym wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus tuag at ein blaenoriaeth lwyr i'w gwneud mor effeithiol a thrwyadl â phosibl.

Fe wnaeth marwolaeth drychinebus Logan, y sylw yn y cyfryngau i achos llys ei lofruddwyr, a'r datgeliadau dilynol am rôl pob asiantaeth gynhyrchu llawer iawn o sylwadau a dadlau.

Tra'n cofleidio'n llawn ac yn cymryd cyfrifoldeb llwyr am y meysydd lle mae angen inni wella a gwneud yn well, rhaid i mi gyfaddef hefyd fy mod yn teimlo'n siomedig ynghylch y ffordd y defnyddiwyd y digwyddiad trychinebus hwn serch hynny i geisio sgorio pwyntiau gwleidyddol ar lefel genedlaethol.

Roedd yn ymddangos bod rhai o'r sylwadau hynny nid yn unig yn anwybyddu canfyddiadau'r adolygiad ymarfer plant yn fwriadol, ond hefyd yn ceisio cysylltu unigolion yn uniongyrchol â'r drychineb, a chefais hyn yn hynod o atgas.

Drwy gydol y broses hon ar ei hyd, mae ein meddyliau wedi aros gyda Logan, a phawb oedd yn ei adnabod, yn ei garu neu'n gofalu amdano. Bydd effaith ei farwolaeth yn aros gyda ni fel awdurdod am byth, ac er cof amdano, rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i wella ein hymarfer er budd plant ac oedolion fel ei gilydd sy'n agored i niwed.

Gan fod rhan fawr o'n hymdrech i gyflawni gwelliannau yn ymwneud â mynd i'r afael â'n problemau recriwtio parhaus, rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymgyrch sy'n annog pobl i 'roi'r rhodd o ofal' y Nadolig hwn.

Fel Cyngor, rydym yn gwerthfawrogi'n fawr waith ein holl weithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Mae arnom eisiau dathlu a hyrwyddo'r hyn y maent yn ei wneud, a'r cyfleoedd niferus sydd ar gael i wneud gwahaniaeth ym mywydau aelodau mwyaf agored i niwed y gymuned leol.

Wedi'i chynllunio i gyd-fynd â 12 Diwrnod y Nadolig, mae'r ymgyrch yn amlygu'r amrywiaeth o gyfleoedd gwaith sydd ar gael o fewn timau gofal cymdeithasol y Cyngor. Mae'n pwysleisio'r angen i staff gofal cymdeithasol roi cefnogaeth gorfforol, emosiynol a chymdeithasol i bobl leol, ac mae'n cynnwys gweithwyr presennol sy'n siarad yn onest ac yn realistig am eu gwaith, yr effaith mae'n ei chael a'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan y Cyngor.

Mae'r ymgyrch yn ceisio gwneud pobl yn ymwybodol o'r ffaith fod ystod eang o gyfleoedd ar gael – o staff cartrefi gofal, gweithwyr ailalluogi sy'n gofalu am bobl yn eu cartrefi eu hunain ac uwch ymarferwyr iechyd meddwl i weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a hyd yn oed brentisiaid gwaith cymdeithasol a chyrsiau gradd a ariennir.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn darganfod mwy wneud hynny drwy fynd i'r tudalennau swyddi ar wefan y Cyngor, felly rwyf yn gobeithio y bydd yr aelodau yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth cymaint o bobl ag sydd modd.
Diolch yn fawr.

**Y Cynghorydd Hywel Williams:**

Rwyf yn siŵr y bydd yr aelodau wedi sylwi ar y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar setliad y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf, a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fod i gael cynnydd o 7.7 y cant ar gyfer 2023-24.

Hoffwn fynegi ein diolch i Lywodraeth Cymru, yn enwedig y Prif Weinidog, y gweinidog cyllid a'r gweinidog dros lywodraeth leol, am wrando unwaith eto ar bryderon Cynghorau

lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r pwysau enfawr yr ydym yn parhau i'w hwynebu.

Mae unrhyw gynnydd i'n cyllid grant craidd bob amser i'w groesawu, a byddwn, wrth gwrs, yn sicrhau y gellir defnyddio'r arian mor effeithiol ac mor effeithlon â phosibl

Ar yr un pryd, rhaid ystyried y cynnydd yn erbyn cyd-destun ehangach o gostau uwch, galwadau ychwanegol a chyfradd sylfaenol chwyddiant cenedlaethol sy'n parhau'n sylweddol uchel.

Nid arian sbâr nac arian ychwanegol mo hwn. Yn dilyn effaith mesurau cyni cenedlaethol, Brexit, pandemig byd-eang y coronafeirws a'r argyfwng costau byw presennol, mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod ymhlith y rhai mwyaf heriol y mae awdurdodau lleol erioed wedi gorfod eu hwynebu.

Serch hynny, mae hyn yn dal i fod yn newyddion da, ac yn haeddu cael ei ddathlu fel y cyfryw.

Caiff gwaith ei wneud yn awr i edrych yn fanylach ar y setliad drafft er mwyn penderfynu i ba raddau y mae'r cynnydd yn debygol o'n cynorthwyo i dalu'r costau ychwanegol yr ydym yn eu hwynebu, ac a ellir ei ddefnyddio i leddfu rhai o'r gostyngiadau yn y gwasanaethau y bydd angen inni efallai eu gwneud.

Diolch yn fawr.

**Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell:**

Bu nifer o newidiadau ymhlith personél uwch ysgolion yn ddiweddar yr hoffwn eu rhannu ag aelodau.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau, yn dilyn ymddeoliad Andrew Slade, y bydd Mike Stephens, Dirprwy Bennaeth presennol Ysgol Gyfun Cynffig, yn dechrau yn ei swydd fel Pennaeth Ysgol Gyfun Porthcawl ym mis Ionawr 2023.

Yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, mae'r pennaeth Julie Morgan wedi derbyn secondiad fel partner gwella ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De. Bydd ei dirprwy, Joanne Edwards yn gweithredu fel pennaeth dros dro yn lle Julie.

Mae Josh Slade yn ysgol gynradd Llidiard a Claire Merfield yn ysgol gynradd Maes yr Haul wedi cael eu penodi'n ddirprwy benaethiaid dros dro.

Yn Ysgol Gynradd Croesty, mae Alan Poole wedi dychwelyd i'w swydd barhaol fel dirprwy bennaeth yn yr ysgol, ac mae Claire Nicholas wedi cymryd swydd y pennaeth.

Yn y cyfamser, mae Chris Jones wedi dod yn bennaeth gweithredol dros dro ar gyfer Ysgol Gynradd Llangynwyd ac Ysgol Gynradd Tynyrheol hefyd.

Mae cyn-ddirprwy bennaeth Ysgol Gynradd Llangynwyd, Kelly Kehoe, wedi dod yn bennaeth dros dro ar yr ysgol.

Yn olaf, mae Richard Edwards, cyn bennaeth Ysgol Gynradd Tynyrheol, wedi cymryd swydd gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol.

Mae Rachel Warner, a oedd yn ddirprwy bennaeth, wedi dod yn bennaeth newydd ar yr ysgol.

Rwyf yn siŵr y bydd yr aelodau'n ymuno â mi i ddymuno pob llwyddiant iddynt i gyd.

Diolch yn fawr.

**Y Cynghorydd Neelo Farr:**

Hoffwn ofyn i aelodau gynorthwyo i ledaenu'r gair am lansiad diweddar mynediad Wi-Fi am ddim ar draws pob canol tref ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Wedi'i gyflwyno er mwyn cynyddu cysylltedd rhwng trigolion, busnesau ac ymwelwyr, nid oes rhaid talu am gael defnyddio'r gwasanaeth ac mae ar gael ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, Maesteg a Phencoed.

Y cyfan sydd angen i bobl ei wneud er mwyn manteisio ar y gwasanaeth newydd yw chwilio yn eu gosodiadau rhwydwaith Wi-Fi am 'BCBC Free Wi-Fi" ac yna rhoi eu cyfeiriad e-bost.

Mae'r Wi-Fi rhad ac am ddim yn golygu y gall pobl bellach bori'r rhyngrwyd, gweithio o bell o adeiladau canol y dref, darllen eu he-byst wrth aros am fws neu drên, a mwy.

Hwn yw'r buddsoddiad cadarnhaol diweddaraf yn y fwrdeistref sirol, ac mae'n ddiamau y bydd o fudd mawr i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at y ffordd y mae marsialiaid tacsis yn helpu'r rhai sy'n dathlu i fwynhau taith ddiogel adref o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod tymor yr ŵyl.

Gan weithio mewn parau ar nos Wener a nos Sadwrn rhwng 10p.m. a 4a.m, mae'r marsialiaid tacsis yn cynorthwyo pobl i ddefnyddio'r safleoedd tacsis ar Stryd y Farchnad a Heol Derwen.

Gan gydweithio'n agos â Heddlu De Cymru, maent hefyd yn helpu i atal amhariad posibl, ac yn sicrhau bod pawb yn medru gadael canol y dref yn ddiogel a heb unrhyw helynt.

Maent yn boblogaidd iawn gyda'r bobl sydd allan yn mwynhau, ac maent hefyd yn cynorthwyo gyrwyr tacsis drwy dawelu ac atal digwyddiadau posibl cyn y gallant ddigwydd a gwaethygu.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel rhan o'r fenter Strydoedd Mwy Diogel, ac mae'n siŵr y bydd yr aelodau yn dymuno llongyfarch y marsialiaid tacsis am eu gwaith da.

Diolch yn fawr.

**Y Cynghorydd John Spanswick:**

Mae arnaf eisiau rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am yr arddangosfeydd sydd wedi bod yn cael eu cynnal fel rhan o'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ynghylch gwaith ynni gwyrdd newydd Hybont sydd wedi cael ei gynllunio ar gyfer ardal Brynmenyn.

Mae llawer iawn o drafod wedi bod yn digwydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar ynghylch y cynnig hwn, a chan fod llawer iawn o wybodaeth anghywir eisoes wedi cael ei dosbarthu, rydym wedi bod yn annog pobl i ddod i ddarganfod mwy am y cynlluniau, ac i gael eu ffeithiau'n uniongyrchol oddi wrth yr arbenigwyr.

Mae cannoedd o drigolion wedi mynychu'r arddangosfeydd, a gynhaliwyd ym Mhwll Nofio Ynysawdre. Cawsant gyfle i siarad yn uniongyrchol â’r arbenigwyr Japaneaidd Marubeni yn ogystal â thîm ynni’r Cyngor, a chawsant gyfle i ddarganfod sut mae’r dechnoleg eisoes yn cael ei defnyddio ar draws y DU ac Ewrop.

Rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud i’r digwyddiad ysgogi dadl gadarn a bywiog, a bod y mynychwyr wedi gallu mynegi eu pryderon ynghylch diogelwch, maint a lleoliad y gwaith arfaethedig.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bod llawer o'r pryderon hyn hefyd yn seiliedig ar wybodaeth anghywir a sïon.

Gwnaeth tîm yr arddangosfa ymdrechion i fynd i’r afael â hyn, ac eglurodd fod gwaith Hybont yn rhan o symudiad newydd tuag at fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu’r defnydd o ynni adnewyddadwy glân a datgarboneiddio cerbydau.

Mae hyn eisoes wedi gweld cyflwyno 22 o fysiau hydrogen newydd yn ddiogel ac yn effeithiol yn Llundain – sy’n cyfateb i gael gwared ar 836 o geir petrol ac arbed 1,848 tunnell o CO2 – tra yn Aberdeen, mae 15 o fysiau hydrogen eisoes wedi teithio mwy na miliwn o filltiroedd gyda’i gilydd gan arbed 1,700 tunnell o allyriadau.

Gyda thryciau gwastraff ac ailgylchu hydrogen yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn ardaloedd fel Cilgwri, mae prosiect Pen-y-bont ar Ogwr yn fuddsoddiad o £31 miliwn a allai sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran y defnydd cynyddol o ynni cynaliadwy mewn bywyd bob dydd.

Byddai'r gwaith newydd arfaethedig wedi'i leoli ochr yn ochr â diwydiannau presennol yn Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn lle byddai'n meddiannu safle bychan, wedi'i dirlunio'n helaeth, a'r unig sgil-gynnyrch y byddai'n ei gynhyrchu yw ocsigen. Pan gaiff ei ddefnyddio, mae'r tanwydd ei hun yn cynhyrchu dŵr.

Rhoddodd tîm yr arddangosfa sicrwydd i bobl hefyd mai dim ond yn y cam cyn-ymgeisio y mae’r gwaith arfaethedig, ac anogwyd pawb i gyflwyno eu pryderon fel y gallent dderbyn ymateb swyddogol yn seiliedig ar wybodaeth wirioneddol a ffeithiau caled.

Mae’n amlwg bod llawer iawn o’r wybodaeth anghywir hon yn parhau, ac y bydd angen gwneud rhagor o ymdrech i sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth briodol am y gwaith a beth fydd ei effaith mewn gwirionedd.

Gobeithiaf y bydd yr Aelodau’n cefnogi’r ymdrechion hyn. Rydym yn trefnu sesiynau briffio ychwanegol ar gyfer y Cynghorwyr, ASau ac ASau lleol i sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth, a byddaf yn rhoi diweddariadau pellach i chi wrth i’r sefyllfa hon ddatblygu.

Diolch yn fawr

**Y Cynghorydd Rhys Goode:**

Rwyf yn siŵr bod aelodau, fel finnau, yn clywed yn rheolaidd gan breswylwyr pryderus neu ofidus sy’n poeni sut y maent yn mynd i ymdopi yn ystod yr argyfwng costau byw.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi dod yn ymwybodol o nifer o achosion lle mae pobl wedi dweud eu bod wedi gorfod canslo mynediad wi-fi at y band eang oherwydd costau neu oherwydd eu bod wedi cyrraedd y terfyn ar gyfer capasiti data eu ffôn symudol.

Mae hyn yn cael effaith anffafriol ar eu hymdrechion i aros ar-lein, cwblhau ceisiadau am swyddi, cael mynediad at ddysgu ysgol neu hyfforddiant ar-lein, a llawer mwy. Y newyddion da yw bod cymorth wrth law.

Efallai yr hoffai aelodau roi gwybod i'w hetholwyr, yn ogystal â mynediad at wasanaethau rhyngrwyd a chyfrifiadurol am ddim drwy'r lyfrgelloedd lleol, fod y Banc Data Cenedlaethol ar gael i gynnig cymorth.

Gan weithio ochr yn ochr â rhwydwaith o bartneriaid cymunedol a chwmnïau telathrebu fel Virgin Media, Three a Vodafone, mae'r Banc Data Cenedlaethol ar hyn o bryd yn darparu data cysylltedd y rhyngrwyd am ddim i fwy na 500,000 o bobl ledled y DU.

Mae hyn yn sicrhau y gall pobl gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, gwneud cais am gyfweliadau am swyddi a'u mynychu, defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth hanfodol am iechyd neu faterion pwysig eraill, a gwneud defnydd llawn o'r symudiad cynyddol tuag at wasanaethau cyhoeddus digidol.

At hynny, mae pecynnau band eang rhatach hefyd ar gael i bobl sy'n derbyn budd-daliadau penodol gan gynnwys Credyd Cynhwysol a Chredyd Pensiwn. Gyda'r tariff yn dechrau o ddim ond £15 y mis, mae hyn yn cynnig ffordd arall i bobl gynnal mynediad at wasanaethau rhyngrwyd cyflym ac effeithlon.

Dylai unrhyw un, sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am sut y gall y Banc Data Cenedlaethol helpu, fynd i wefan sefydliad pethau da dot org, tra mae gwefan Ofcom yn cynnwys manylion llawn am dariffau cymdeithasol rhatach.

Diolch yn fawr.

**<u>Y Prif Weithredwr:</u>**

"O ran y gwaith adfer i gywiro materion a etifeddwyd o ganlyniad i fethiant gosod waliau yng Nghaerau yn 2012 i 13, dywedais o'r blaen wrth yr aelodau fel yr oeddem wedi cael cadarnhad anffurfiol gan y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd, Julie James, fod yr achos busnes yr oeddem wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am arian i fynd i'r afael â'r holl waith gosod wedi bod yn llwyddiannus.
"Rydym, wrth gwrs, yn ddiolchgar dros ben i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ac am weithio'n agos gyda ni i ddatrys y mater hwn. Cyflwynwyd yr achos busnes oherwydd, yn anffodus a heb unrhyw fai arnynt eu hunain, bod nifer sylweddol o ddeiliaid tai wedi bod yn byw dan amodau annerbyniol dros y degawd diwethaf, a heb dderbyn manteision yr inswleiddio gwell a mwy o effeithlonrwydd ynni y bwriadwyd i'r cynlluniau ôl-osod eu sicrhau.

"Er ein bod bellach wedi cael llythyr ffurfiol gan y Gweinidog yn cadarnhau ei chymeradwyaeth, er eglurder, rydym yn dal i aros am y llythyr cadarnhau telerau ac amodau grantiau - ac i fod yn gwbl glir, yn sicr nid ydym eto wedi cael y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i ni.

"Rwyf yn deall y bu cryn ddiddordeb ac efallai syndod gan rai Aelodau o ganlyniad i rywbeth a ddywedodd y Gweinidog ar y teledu ddydd Sul. A bod yn onest, fyddwn i ddim yn darllen gormod i mewn i hyn. Er fy mod yn deall pryder yr Aelodau, rwyf yn credu'n wirioneddol mai camddealltwriaeth ydyw dros y defnydd gwahanol o iaith, ac y gellir gwneud gormod o hyn.

I roi sicrwydd i chi felly, mae Llywodraeth Cymru a ninnau yn glir iawn ar y sefyllfa ac ar yr un dudalen, ac rwyf wedi siarad â swyddfa'r Gweinidog heddiw am beth amser. Felly

o safbwynt y gweinidog, rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud ei bod wedi rhoi cymeradwyaeth weinidogol - cyn belled ag y mae hi yn y cwestiwn, mae'r arian wedi cael ei ddyrannu i Ben-y-bont ar Ogwr, ac mae hi'n disgwyl inni symud ymlaen â'r gwaith.

"Rwyf yn meddwl o'n safbwynt ni, ydy, mae'r cyllid wedi cael ei ddyfarnu a bydd yn dod. Rydym yn glir ar hynny. Ond y ffordd y mae'r grantiau hyn yn gweithio, yn anffodus, nid ydych yn cerdded allan o Fae Caerdydd gyda £2.65 miliwn. Yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw ein bod yn disgwyl am y llythyr grant telerau ac amodau. Fel arfer, caiff y cyllid ei hawlio ar sail gwariant gwirioneddol yn ôl-weithredol, a gwyddom ei fod wedi'i broffilio dros dair blynedd ariannol.

"I fod yn glir, felly, mae'r cyllid bellach wedi cael ei gadarnhau, ac mae arnaf eisiau rhoi sicrwydd ichi na fydd unrhyw oedi pellach felly oherwydd ein bod i gyd yn glir iawn ei fod ar ddod, ac rydym yn bwrw ymlaen â'r camau cychwynnol a'r gwaith cychwynnol yn unol â hynny gyda'r achos busnes a gymeradwywyd. Nid oes unrhyw oedi o ganlyniad i unrhyw beth sydd wedi digwydd, nac a ddywedwyd.

"Fel pwynt ychwanegol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn garedig wedi cadarnhau y gellir gwario cyn i'r llythyr grant gyrraedd os oes angen, ac mae'n ddigon posibl y bydd hynny'n wir.

Cadarnhaf rai o fanylion y camau cyntaf yn ddiweddarach yn fy natganiad. Fodd bynnag, rydym yn gwybod, oherwydd bod cymeradwyaeth wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, y bydd yn rhaid inni fynd yn ôl at Lywodraeth Cymru i siarad â hwy eto am rywfaint o'r proffilio presennol o'r gwariant, gan gydnabod ei bod yn debygol bod y gymeradwyaeth wedi dod chwe mis yn ddiweddarach nag yr oeddem yn disgwyl yn wreiddiol, ac felly bod y cyfnodau amser gwreiddiol hynny wedi newid.

"Rhoddaf enghraifft o hynny ichi. Mae angen inni fod yn glir iawn mai dyma lle mae angen inni gael cyngor arbenigol y gallwn o hyd gyflawni'r gwaith yn y ffordd a fwriadwyd yn yr achos busnes gwreiddiol. Bwriadwyd i'r gwaith o dynnu inswleiddiad y waliau allanol ac inswleiddiad y waliau mewnol ddechrau ym mis Tachwedd 2022. Yn amlwg nid yw hynny'n mynd i ddigwydd bellach. Felly, gallwn gymryd yn ganiataol y bydd hynny'n symud yn ôl chwe mis ac y bydd efallai tua Mai 23. Nid wyf yn meddwl y bydd hynny'n broblem. Fodd bynnag, yr hyn y mae angen inni fod yn glir yn ei gylch yw ble yr ystyriwyd yn wreiddiol y byddai ailosod inswleiddiad y waliau allanol ac inswleiddiad y waliau mewnol wedi bod ym mis Mehefin 23, "Os ewch â hynny chwe mis ymlaen, byddai hynny nawr yn fis Tachwedd neu fis Rhagfyr 23. Yn awr, yn syml, nid wyf yn gwybod yr ateb i hynny. Byddai arnaf angen cyngor arbenigol a yw hynny'n ymarferol neu a yw'n synhwyrol i wneud hynny yng nghyfnod y gaeaf. A dyna'r math o beth y mae angen inni ei wirio gyda Llywodraeth Cymru, i wneud yn siŵr ein bod yn cael proffilio'r gwariant hwnnw'n gywir.

"Yn gyfan gwbl, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddwn yn cael grant o £2.65 miliwn ganddynt, ac mae'r Cyngor wrth gwrs wedi gosod y swm o £855,000 yn erbyn hyn yn ei raglen gyfalaf.

"Bydd yr Aelodau'n cofio bod gwaith gosod waliau wedi'i wneud yn wreiddiol ar 104 o gartrefi o dan y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol genedlaethol a mentrau ARBED yn 2012/13. Yn anffodus, mae llawer iawn o gam-adrodd a sylwadau anghywir ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod ar y mater hwn, er gwaethaf amryw o esboniadau a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, er mwyn eglurder pendant, roedd ymwneud y Cyngor wedi ei gyfyngu i 25 eiddo lle y gwnaethom weinyddu cyllid ARBED i wneud y gwaith gwreiddiol. Caniataodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol wneud cais am gyllid ARBED i ategu cynlluniau CESP oedd eisoes yn

cael eu rhedeg yn eu hardaloedd. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw ran yng ngwaith y 79 eiddo arall hynny lle gwnaed gwaith dan y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol yng Nghaerau, ac yn bwysig, mae hynny'n ffaith a gadarnhawyd gan Ofgem, y cwmnïau ynni cenedlaethol perthnasol ac adrannau'r llywodraeth eu hunain.

“Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi mai ein bwriad yw mynd i’r afael â’r gosodiad aflwyddiannus ym mhob un o’r 104 o gartrefi, a sicrhau bod yr holl eiddo lle’r ariannwyd y gwaith drwy gynlluniau ar wahân i gyd yn cael eu cynnwys yn y gwaith adfer.
“Yn amlwg, mae gennym lawer iawn o gydymdeimlad â’r holl ddeiliaid tai yr effeithiwyd arnynt gan y mater hwn, ac awydd i wella eu cartrefi cyn gynted ag y bo modd. Wrth wneud hyn, byddwn yn darparu datrysiad parhaol, cadarnhaol, hirdymor i ddeiliaid y tai, fydd yn cael ei gyflawni dros gyfnod o tua dwy flynedd yn ystod 23/24 a 24/25.

“Y bwriad yw y bydd deiliaid cymwys y tai hynny, sy’n dewis cymryd rhan yn y cynllun diwygiedig hwn, yn elwa o gartrefi a fydd wedi eu hinswleiddio’n well ac yn fwy effeithlon o ran ynni, sydd, wrth gwrs, yn hynod o bwysig yn ystod yr argyfwng costau byw presennol ac ar yr adeg hon o gynnydd aruthrol mewn costau ynni.

“Unwaith eto, er mwyn eglurder pendant, yn anffodus, fel y gwyddoch, nid mater o osod sgaffaldiau yn unig a mynd yn syth i’r gwaith o atgyweirio’r eiddo yw hwn. Cam cyntaf y cytundeb gyda LlC yw comisiynu rheolwr rhaglen ac arbenigwr technegol, ac ymgysylltu â’r deiliaid tai perthnasol fel y gellir cynnal arolygon technegol hanfodol cyn inni wedyn gaffael contractwr perthnasol i wneud y gwaith.

“Yn bwysig iawn, i gefnogi hyn, rydym hefyd yn bwriadu penodi Swyddog cyswllt cymunedol a all weithio’n agos ochr yn ochr â thrigolion a gweithredu fel un pwynt cyswllt ar eu cyfer. Mae’r gwaith ffisegol gwirioneddol, felly, ar hyn o bryd wedi cael ei gynllunio a’i rannu’n gyfnodau, fel y dywedais, i ddigwydd yn ystod blynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25, yn amodol ar gadarnhad bod dichon gwneud y gwaith yn y tymhorau penodol hynny.

“Bydd angen rheoli hyn, wrth gwrs, yn ofalus iawn, felly mae’n gwbl hanfodol sicrhau bod arbenigwyr cymwys yn eu lle a all gyflawni hyn a monitro safonau ansawdd. Byddwn yn gwneud y pwynt, wrth gwrs, fod angen inni ddysgu’n ofalus iawn, nid yn unig oddi wrth gynlluniau blaenorol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond yn wir mewn mannau eraill yn y DU, i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud yn iawn gyda’r safonau ansawdd priodol. Felly, yr hyn y mae arnom ni i gyd ei eisiau yw cyflawni hyn cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn meddwl bod angen i ni gael y cyngor arbenigol priodol.
“Felly yn fyr, fel y nododd y Gweinidog, rydym yn symud ymlaen ag ef.

“Er mwyn osgoi oedi pellach, rydym eisoes wedi cychwyn ar yr ymarferion caffael angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu â’r arbenigwyr perthnasol cyn derbyn y llythyr dyfarnu terfynol hwnnw gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn awyddus i wneud cynnydd pellach cyn gynted ag y bo modd ar y gwaith pwysig hwn.

“Yn amlwg, rydym am wneud gwelliannau angenrheidiol i’r cartrefi yr effeithiwyd arnynt cyn gynted â phosibl, ond fel y dywedais, mae angen inni ddysgu hefyd oddi wrth y diffygion yn y ffordd y mae rhaglenni blaenorol wedi cael eu rheoli. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn gwneud hynny.

“Rwyf yn siŵr y bydd yr aelodau’n croesawu’r newyddion cadarnhaol hir-ddisgwyliedig hwn, ac wrth i’r prosiect ddatblygu ymhellach a dod i fwy o siâp, byddaf wrth gwrs yn darparu diweddariadau ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys manylion cyfarfod arfaethedig yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd gyda’r holl aelodau lleol yng Nghaerau, aelodau seneddol ac aelodau’r Senedd, cyn gynted ag y bydd cadarnhad Llywodraeth

Cymru yn ei le gyda manylion y rhaglen, amserlenni a phroffilio, ac maent wedi dweud wrthyf eu bod yn bwriadu cael hynny i ni cyn y Nadolig.

“Y bwriad yw, unwaith y byddwn yn cynnal y cyfarfod cychwynnol hwnnw, y byddwn hefyd yn cael sylwadau gan aelodau lleol o fewn eu cymunedau am y ffordd orau i ymgysylltu â thrigolion lleol. Yn amlwg, y cydbwysedd yma eto yw, pan fyddwn yn mynd i wneud hynny, y bydd angen inni feddu ar ddigon o wybodaeth i allu ateb eu cwestiynau tebygol yn ddigonol.

“Rwyf yn gobeithio bod hyn wedi rhoi briff cynhwysfawr ichi. Yr hyn a ddywedaf yw fy mod, fel bob amser, yn hapus i ateb cwestiynau ychwanegol neu gyfarfod ag aelodau fel y bo’n briodol os oes rhagor o wybodaeth y mae arnoch ei hangen, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ôl yr angen wrth symud ymlaen.”

73. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Rwyf yn siŵr y bydd yr aelodau wedi nodi’r sylw helaeth a roddwyd yn y cyfryngau yn ddiweddar i achosion o Strep A a’r dwymyn goch.

Mae’r cynnydd mewn heintiau eleni wedi effeithio’n bennaf ar blant o dan 10 oed, ac mae wedi cael ei gysylltu â sawl marwolaeth drist o gwmpas y Deyrnas Unedig.

Er bod hyn wedi creu penawdau ac wedi sbarduno pryder yn eang ymhlith rhieni a gofalwyr, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn sicrhau ac yn atgoffa pobl bod yr achosion yn dal i fod yn brin, ac mai risg isel iawn sydd gan blant o ddal y clefyd.

Mae’r cynnydd mewn achosion ledled y DU wedi cael ei briodoli’n bennaf i ddychwelyd i batrymau cymdeithasol cyfarwydd yn dilyn dwy flynedd o sefyllfa bandemig, a chydag ysbytai a meddygfeydd teulu eisoes yn adrodd am bwysau aruthrol ar eu gwasanaethau, gofynnir i bobl aros yn ddigynnwrf a dilyn cyngor ac arweiniad.

Er mwyn cefnogi hyn, mae cyfres o gwestiynau a ofynnir yn aml wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd â’r wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y gallwch gael cymorth pellach.

Efallai y bydd yr Aelodau yn dymuno rhoi gwybod i’w hetholwyr fod y canllawiau hyn ar gael.

Efallai y bydd gan yr Aelodau ddiddordeb hefyd mewn gwybod bod gwaith uwchraddio gwerth £1.2 miliwn yn mynd rhagddo yn Amlosgfa Llangrallo.

Mae’r gwaith yn canolbwyntio ar wella’r Llys Blodau yng nghefn y prif adeilad, a’i ymestyn allan i’r ardal laswelltog ger Capel Crallo.

Y bwriad yw cynorthwyo pobl i adael y capel yn fwy rhwydd, darparu mynediad haws i rai o'r cyfleusterau ac osgoi oedi i wasanaethau, sy'n digwydd ambell waith oherwydd bod pobl yn ymdyrru yn y rhan hon.

Fel adeilad rhestredig, sydd wedi ennill gwobrau am ei ddyluniad unigryw, mae’r gwaith ymestyn wedi cael ei deilwra’n ofalus fel ei fod yn adlewyrchu cymeriad a hanes unigryw’r amlosgfa.

Mae'n cael ei oruchwylio gan y pensaer Cymreig Jonathan Adams, y mae ei brosiectau eraill wedi cynnwys Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd ac adnewyddu Theatr y Sherman yng Nghaerdydd.

Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer haf 2023, ac mae trefniadau yn eu lle i sicrhau y gall yr amlosgfa barhau i weithredu drwy gydol y gwaith.

Mewn newyddion eraill, roeddwn yn falch i nodi bod pedwar maes chwarae arall i blant wedi elwa o fuddsoddiad o £500,000 yn ddiweddar, ac y gallant bellach gynnig offer chwarae cynhwysol sy'n addas ar gyfer plant ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ardaloedd chwarae sydd wedi cael eu huwchraddio wedi eu lleoli yng Nghwm Ogwr, Porthcawl, Abercynffig a Thon-du, ac yn cynnwys cyfleusterau sy'n amrywio o gylchfannau cynhwysol i unedau aml-chwarae newydd, ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus i ddarparu cyfleusterau sy'n hygyrch i bobl o bob oed a gallu.

Yn olaf, mae Heddlu De Cymru yn parhau i ymchwilio i'r amgylchiadau a arweiniodd at ddarganfod dau faban marw mewn eiddo yn y Felin Wyllt fis diwethaf.

Mae dau ddyn, 37 a 47 oed, a dynes 29 oed a gafodd eu harestio ar amheuaeth o guddio genedigaeth plentyn, i gyd ar fechnïaeth yr heddlu ar hyn o bryd.

Ni ddatgelwyd unrhyw fanylion pellach, ond mae'r Cyngor yn cynnig ei gydweithrediad llawn i Swyddogion tra bydd yr ymchwiliad yn parhau.

Rydym hefyd yn atgoffa'r gymuned leol o'r angen i osgoi dyfalu, ac i sicrhau eu bod yn cysylltu â'r heddlu gydag unrhyw wybodaeth berthnasol a allai gynorthwyo eu hymholiadau.

Diolch yn fawr.

74. <u>NEWID YN Y CYFANSODDIAD</u>

Cyflwynodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygiad i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r trothwyon ariannol diwygiedig yn Rheolau y Weithdrefn Contractau i ddod i rym o 1 Ionawr 2023.

Eglurodd fod yn rhaid i wasanaeth gael tri dyfynbris er mwyn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith gwerth dros £5,000. Bu hyn yn anodd ei weithredu oherwydd nifer y dyfynbrisiau ar draws y Cyngor, oedd yn arwain at oedi wrth ddarparu gwasanaeth. Roedd rhagor o fanylion am hyn yn adran 4 yr adroddiad.

Eglurodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fod ymarfer meincnodi wedi dangos y byddai cynnydd i £10,000 ar gyfer cael tri dyfynbris yn cyd-fynd â Chynghorau cyfagos. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 13 Rhagfyr 2022 yn gofyn am gymeradwyaeth i ddiwygio'r trothwy ariannol is o £5,000 i £10,000 ar gyfer caffael tri dyfynbris o fewn Rheolau y Weithdrefn Contractau ac yn argymell bod y Cyngor yn diwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau hynny.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod yr adroddiad wedi cael ei drafod yn y Cabinet ddoe ac y nodwyd bod yr argyfwng costau byw yn ogystal â'r ymosodiad ar yr Wcráin gan filwyr Rwsia wedi gyrru costau i lefel na ellir ei rheoli ac felly bod angen codi'r trothwy o £5,000 i £10,000.

Gofynnodd Aelod am i'r adroddiad hwn ac adolygiad o'r trothwy gael eu cynnal ymhen 6 mis a hefyd iddo gael ei drafod yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gofynnodd Aelod pa fesurau diogelu oedd yn eu lle i sicrhau nad oedd prosesau caffael mawr yn cael eu rhannu i'w rhoi mewn slotiau caffael o dan £10,000.

Amlinellodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol nifer o reolaethau oedd yn eu lle ac ychwanegodd fod y tîm caffael yn cynnal archwiliadau rheolaidd ar weithgareddau fel ag y mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ei wneud. Darparwyd sesiynau hyfforddi hefyd yn ddiweddar ar gyfer yr holl staff sy'n caffael neu'n comisiynu nwyddau/gwasanaethau ac felly bod y staff yn glir ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn.

Eglurodd yr Arweinydd mai cwmnïau lleol oedd bob amser yn cael eu hystyried a'u ceisio ar gyfer gweithgareddau caffael a bod hyn bob amser wrth galon y broses o wneud penderfyniadau lle roedd modd.

PENDERFYNWYD: bod y Cyngor yn cymeradwyo diwygiad i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r trothwyon ariannol diwygiedig fel y'u nodir ym mharagraff 4.5, i ddod i rym o 1 Ionawr 2023.

75. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd A Wathan i Aelod y Cabinet – Adnoddau**
All Aelod y Cabinet – Adnoddau roi'r asesiad risg i mi o Fenthyciadau Tymor Byr i Awdurdodau Lleol dan y weithdrefn a fabwysiadwyd gan CBSP?

**Ymateb**:
Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor, a'r risgiau cysylltiedig. Enwebwyd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) a pholisïau.

Mae risg y trysorlys yn y Cyngor yn cael ei rheoli o fewn fframwaith Rhifyn 2017 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) '*Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer'* Argraffiad 2017 (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Reoli'r Trysorlys (TMS) cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae Cod CIPFA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod nifer o Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys, sy'n baramedrau sy'n edrych i'r dyfodol ac sy'n galluogi'r Cyngor i fesur a rheoli ei amlygiad i risgiau rheolaeth trysorlys, ac adroddir am berfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn wrth yr Aelodau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Cyflwynwyd adroddiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor i'r Cyngor llawn a'i gymeradwyo ganddo ar 23 Chwefror 2022, ac mae'n nodi'n glir y terfynau buddsoddi ar gyfer pob gwrthbarti. Yn benodol, mewn perthynas ag awdurdodau lleol, mae'n gosod y terfynau benthyca a ganlyn:

Awdurdodau lleol ac endidau eraill:
Terfyn amser: 25 mlynedd,
Terfyn gwrthbarti: £12 miliwn,
Terfyn y sector: £ anghyfyngedig.

I grynhoi, yr uchafswm y gellir ei fenthyca i unrhyw awdurdod lleol unigol ar unrhyw adeg yw £12 miliwn, am gyfnod heb fod yn hwy na 25 mlynedd. Mae'r cyfanswm y gall y Cyngor hwn ei fenthyca i bob awdurdod lleol gyda'i gilydd yn anghyfyngedig.

Mae'r Cyngor yn benthyca'n rheolaidd i awdurdodau lleol eraill gan ei fod yn arfer sydd wedi'i hen sefydlu ar draws y sector ac yn darparu lefel uchel o sicrwydd a lefel isel o risg, gyda lefel gymesur o elw. Mae awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn wrthbartïon buddsoddi gyda risg credyd isel iawn. Fel sefydliadau yn y sector cyhoeddus maent yn llawer llai agored i'r math o rymoedd marchnad a all wneud banciau a busnesau eraill yn fethdalwyr ac, er y gallant uno, rhannu neu newid fel arall, maent hwy a'r swyddogaethau a ddarperir ganddynt yn annhebygol o beidio â bodoli.

Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael eu graddio gan asiantaethau statws credyd, ond mae'r rhai sy'n cael eu graddio yn derbyn sgôr uchel.

Gwneir yr holl fuddsoddiadau yn unol â chyngor Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, a benodwyd drwy broses dendro gystadleuol. Mae mwyafrif y buddsoddiadau y mae'r Cyngor hwn yn eu gwneud i awdurdodau lleol eraill yn llai na blwyddyn, er bod un buddsoddiad diweddar wedi'i wneud am gyfnod o 2 flynedd, gwerth £5 miliwn hyd at fis Gorffennaf 2024. Mae'r holl fuddsoddiadau eraill gydag awdurdodau lleol eraill am lai na blwyddyn.

Er mwyn bod o gymorth i leihau risg, nid yw'r Cyngor hwn ychwaith yn buddsoddi hyd at yr uchafswm a ganiateir ac a gymeradwywyd gan y Cyngor. Y terfyn cymeradwy fesul awdurdod fel y nodwyd uchod yw £12 miliwn, fodd bynnag nid yw'r uchafswm a roddwyd ar fenthyg fel arfer yn fwy na chyfanswm o £8 miliwn, a byddai hyn ar draws 2 swm a llinellau amser a/neu gyfnod o hyd gwahanol.

Ar hyn o bryd mae gennym fuddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol eraill o £41 miliwn, sydd wedi'i wasgaru dros 9 awdurdod lleol gwahanol, gyda buddsoddiad cyfartalog o £5 miliwn, a gyda'r dyddiadau aeddfedu yn disgyn ar draws blynyddoedd ariannol fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| 2022/23 | £11,000,000 |
| 2023/24 | £25,000,000 |
| 2024/25 | £5,000,000 |
| **Cyfanswm** | **£41,000,000** |

Nid yw'r Cyngor hwn wedi bod yn destun unrhyw fethiant gan unrhyw awdurdod lleol arall i ad-dalu ei ddyled ar amser **a** gyda'r llog cysylltiedig sy'n ddyledus. Mae Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor wedi cadarnhau:
'…….***bod yr ymyriad a'r gefnogaeth a ddarperir gan y llywodraeth ganolog yn tanlinellu teilyngdod credyd sector yr awdurdodau lleol'***.

Mae ein hymgynghorwyr hefyd yn credu bod y tebygolrwydd o ddiffygdalu gan awdurdod lleol yn y DU ar rwymedigaeth dyled yn parhau'n isel, gyda'r golled ddisgwyliedig o ystyried y diffyg talu yn is fyth. Mae fframwaith Cyllid Llywodraeth Leol, amddiffyniadau credydwyr a thebygolrwydd cefnogaeth llywodraeth ganolog yn golygu bod awdurdodau lleol, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu heriau cyllidebol penodol, yn cadw lefelau uchel o deilyngdod credyd.

Cyflwynir adroddiadau Rheoli'r Trysorlys yn rheolaidd i'r Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n rhoi'r cyfle i adolygu Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ac i wneud unrhyw newidiadau ffurfiol i Strategaeth Reoli'r Trysorlys.

Caiff gwasanaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ei adolygu’n rheolaidd gan yr archwilwyr allanol fel rhan o’u proses archwilio flynyddol, ac archwilio mewnol. Daeth yr adolygiad diweddaraf gan archwilio mewnol i’r casgliad ym mis Chwefror 2020 bod ‘effeithiolrwydd amgylchedd y rheolaeth fewnol yn cael ei ystyried yn gadarn ac felly y gellir rhoi sicrwydd sylweddol ar reoli risgiau.’

**Cwestiwn atodol gan Y Cynghorydd Alan Wathan**
**“**Diolch am ateb technegol manwl iawn. Nodaf gyda diddordeb bod yr Awdurdod hwn ar y 30ain o Awst 2022 wedi cadarnhau'r polisi moesegol.
ar gyfer Buddsoddiadau pensiwn. Hoffwn hefyd ofyn i’r aelod cabinet a yw’r Awdurdod hwn wedi mabwysiadu polisi moesegol tebyg ar fuddsoddiadau i awdurdodau lleol risg isel, y byddai ganddynt arferion gweithredu amheus yn null Casino yr adroddir amdanynt cyn cytuno ar delerau benthyca.”

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid Perfformiad a Newid fod gennym ganllawiau llym ar bwy y gallwn ac na allwn fenthyca ganddynt. O safbwynt moesegol, ystyrid bod Awdurdodau Lleol yn risg isel. Gwneir llawer o'r benthyca drwy swyddfa Rheoli Dyled y Llywodraeth sy'n cael ei rhedeg gan y Llywodraeth Ganolog. Ychwanegodd nad oedd ganddi'r wybodaeth ynghylch ail ran y cwestiwn ond y byddai'n ei rhoi i'r Aelod yn ddiweddarach.

**Cwestiwn atodol gan Y Cynghorydd Steven Bletsoe**
“Yn dilyn cwestiwn Y Cynghorydd Wathan, ydy polisi moesegol nad oedd yn gysylltiedig â phensiynau yn rhywbeth y byddai’r Cabinet yn ei ystyried wrth fynd ymlaen?”

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid ein bod yn adolygu dogfen Rheoli’r Trysorlys yn flynyddol ac eisoes wedi gwneud ymrwymiad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i wneud hynny, yn enwedig mewn perthynas â’n buddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol ac felly gellid edrych ar hyn yn yr adolygiad nesaf.

**Y Cynghorydd D Hughes i Aelod y Cabinet – Adnoddau**
Sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â phartneriaid eraill, yn creu mecanweithiau cymorth ariannol i gynorthwyo i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas?

**Ymateb:**
Mae'r Cyngor wedi darparu cefnogaeth i drigolion yn y Fwrdeistref Sirol trwy nifer o wahanol ddulliau yn ddiweddar ac mae'n parhau i wneud hynny nawr.

<u>Taliadau Tai Dewisol</u>
Telir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) o gyllideb arian parod gyfyngedig, a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a’u bwriad yw helpu pobl i dalu costau tai, fel arfer pan fo diffyg rhwng eu Budd-dal Tai (BT), neu elfen dai y Credyd Cynhwysol (CC), a’u rhent. Dim ond os yw’r hawlydd yn hawlio Budd-dal Tai, neu Gredyd Cynhwysol gyda chostau tai y gellir dyfarnu TTD tuag at atebolrwydd rhent.

Gellir dyfarnu TTD am flaendal rhent neu rent ymlaen llaw am eiddo nad yw’r hawlydd wedi symud i mewn iddo eto os oes ganddo hawl eisoes i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yn ei gartref presennol, a hefyd taliadau am gostau tai yn y gorffennol (gan gynnwys ôl-ddyledion rhent).

Taliadau brys yw’r taliadau hyn ac mae’n rhaid i’r Cyngor sicrhau bod unrhyw daliad yn cyrraedd y rhai sydd â’r angen mwyaf.

Dyraniad cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau i Ben-y-bont ar Ogwr yn y flwyddyn gyfredol yw £258,312, ac mae hyn yn cael ei ategu gan £150,000 pellach a ddyrannwyd o grant Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn Llywodraeth Cymru (cyfanswm o £408,312).

Rydym yn hyrwyddo'r gwasanaethau hyn drwy ein hadnoddau ein hunain a hefyd yn gweithio gyda sefydliadau cynghori rhad ac am ddim fel CAB, sy'n cynnig cyngor am ddim i drigolion ac yn hyrwyddo'r cymorth hwn.

Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor
Mae Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn helpu pobl ar incwm isel i dalu eu Treth Cyngor. Darperir y cymorth hwn drwy broses ymgeisio a gall unigolion dderbyn y cymorth hwn i dalu eu Treth Cyngor p'un a ydynt yn derbyn budd-daliadau eraill ai peidio, yn gweithio, yn ddi-waith, yn gofalu am oedolyn neu blentyn neu wedi ymddeol.

Amcangyfrifir mai cyfanswm y cymorth ariannol a ddarperir i unigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr drwy'r llwybr hwn yw £14.87 miliwn yn y flwyddyn gyfredol. Ar hyn o bryd mae 12,565 o unigolion neu deuluoedd yn derbyn cymorth ariannol drwy'r cynllun hwn. Eto, mae gwybodaeth am sut i hawlio'r cymorth hwn ar gael ar ein gwefan.

Taliadau Tanwydd
Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ac yn talu'r Cynllun Cymorth Tanwydd ar hyn o bryd. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi aelwydydd cymwys gyda'r gost o wresogi eu cartrefi drwy gydol misoedd y gaeaf ac yn rhoi taliad untro o £200 i ymgeiswyr. Eleni mae'r cynllun yn agored i aelwydydd lle mae rhywun yn hawlio budd-daliad fel Gostyngiad Treth Cyngor (yn seiliedig ar incwm y cartref), budd-daliad anabledd, credyd cynhwysol, cymhorthdal incwm, credyd treth plant a gwaith, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm a lwfans gwaith a chymorth cysylltiedig ag incwm. Gallai deiliaid tai, nad ydynt eu hunain yn derbyn budd-dal cymwys, hefyd dderbyn taliad os ydynt yn byw gydag oedolyn neu blentyn arall sy'n derbyn budd-dal anabledd. Mae'r meini prawf llawn a rhestr o'r budd-daliadau cymwys ar gael ar ein gwefan.

Hyd yma, mae 14,201 o daliadau wedi cael eu gwneud, sef cyfanswm o £2,840,200; mae'r cynllun yn parhau tan 28 Chwefror 2023.

Taliad i ofalwyr di-dâl
Yn gynharach yn y flwyddyn ariannol hon, bu'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru wneud taliadau untro o £500 i ofalwyr di-dâl. Gwnaed y taliad i gydnabod y pwysau ariannol cynyddol a brofodd gofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig, ac er mwyn helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol yr aethant iddynt. Roedd y taliad ar gael i bob gofalwr di-dâl cymwys oedd yn derbyn Lwfans Gofalwr ar 31 Mawrth 2022.

Gyda'i gilydd, gwnaed 2,587 o daliadau, sef cyfanswm o £1,293,500

Cynllun Costau Byw
Mae'r cynllun costau byw yn fenter arall gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei rheoli'n lleol gan y Cyngor hwn. Bwriad y cynllun yw darparu cymorth wrth i Gymru ymadfer ar ôl y pandemig a chynorthwyo cartrefi i ddelio ag effaith costau ynni cynyddol a chostau eraill. Cafodd y meini prawf ar gyfer cael mynediad i'r cynllun eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Derbyniodd pob cartref cymwys yn y fwrdeistref sirol daliad o £150 o dan y prif gynllun a ddaeth i ben ar y 30ain o Fedi 2022.

Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer prif ran y cynllun hwn oedd £7.514 miliwn. O ganlyniad dyrannodd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr 49,120 o daliadau gwerth cyfanswm o £7,368,000 sef 98.05% o'r cyllid a ddyrannwyd, yn erbyn cyfartaledd o 96.25% ledled Cymru.

Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd £1.236 miliwn arall tuag at gynllun dewisol lle gallai'r Cyngor benderfynu sut y gellid dosbarthu'r cymorth ychwanegol i'r rhai â'r angen

mwyaf. Cychwynnodd y Cynllun Dewisol ar 1 Hydref 2022 a hyd yn hyn mae 10,439 o aelwydydd wedi derbyn taliad o £60 gyda 6197 o daliadau o £50 yn cael eu gwneud mewn perthynas â phlentyn sy'n cael prydau ysgol am ddim. Bydd y cynllun hwn yn rhedeg tan 31 Mawrth 2023.

Canolfannau Cynnes
Gan ragweld y bydd costau ynni yn codi a'r pryder na fydd pobl yn gallu cadw'n gynnes gartref, rydym yn gweithio gyda phartneriaid strategol a grwpiau cymunedol lleol i nodi lleoedd a digwyddiadau ledled Pen-y-bont ar Ogwr lle gall pobl gael mynediad i gadw'n gynnes yn ystod gaeaf 2022/ 23. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ond yn cael eu haddasu i gymryd i ystyriaeth yr angen i gadw'n gynnes ond hefyd ymgymryd â gweithgaredd pleserus mewn gofod croesawgar. Mae staff y Cyngor yn ymgysylltu â'r grwpiau a'r sefydliadau lleol ym mhob ardal o'r sir i fapio'r hyn sy'n bodoli ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chynnal ar dudalen we Costau Byw newydd ar wefan y Cyngor yn ogystal â chael ei rhannu â sefydliadau allweddol eraill fel y gallant ei phostio. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru er mwyn cefnogi Canolfannau Cynnes. Rhagwelir y bydd cynllun grant ar gael yn fuan fel y gall sefydliadau wneud cais am arian i ehangu neu wella eu cynnig presennol neu ddatblygu o'r newydd os oes bwlch.
https://www.bridgend.gov.uk/residents/benefits-and-support/cost-of-living-support/

Rhyddhad Ardrethi Busnes i fusnesau yn yr ardal
Rhoddwyd cymorth i fusnesau lleol drwy'r Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychain a'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch er mwyn sicrhau y gallant barhau i fasnachu i gefnogi'r economi leol a chynnal lefelau cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Drwy'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychain mae 3,206 o fusnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 yn cael rhyddhad ar raddfa symudol rhwng 0% a 100% yn dibynnu ar eu gwerth ardrethol. Ar hyn o bryd mae 362 o fusnesau yn elwa ar Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch o 50%. Mae llythyrau wedi cael eu dosbarthu'n ddiweddar i fusnesau cymwys i'w hannog i wneud cais am y gostyngiad a lleihau eu hatebolrwydd.

Treth Cyngor 2022/2023
Wrth osod y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn gyfredol, cytunodd y Cyngor i gynnydd o 0% yn Nhreth y Cyngor. Yn yr adroddiad ar y gyllideb mae'n nodi'n glir mai'r rhesymeg dros hyn oedd cynorthwyo dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr i ymdrin â chostau byw cynyddol, megis cynnydd mewn biliau ynni a bwyd, codiadau chwyddiannol eraill, codiadau yn llog morgeisi a chynnydd mewn yswiriant gwladol.

Parcio am Ddim
Yn ystod y pandemig mae'r Cyngor wedi gwneud cynnig parcio hael o barcio am ddim am 3 awr yn ei brif feysydd parcio.

Grantiau
Rydym wedi bod yn darparu grantiau cyfalaf ar draws y Fwrdeistref Sirol ar gyfer busnesau a pherchnogion tai newydd, i bontio'r bwlch o ran gallu mynd ar yr ysgol eiddo neu i alluogi busnesau i weithredu'n wahanol.

Ers mis Mawrth 2021, mae grantiau gwerth £371 mil wedi cael eu dyfarnu i 23 o berchnogion tai newydd yn ein cymunedau yn y Cymoedd i'w galluogi i fynd ar yr ysgol eiddo a dod ag eiddo preswyl oedd yn wag o'r blaen yn eu cymunedau lleol yn ôl i feddiannaeth.

Hefyd rhoddwyd bron i £600 mil o grantiau cyfalaf i 83 o fusnesau ar draws y Sir o ganlyniad i Covid i fuddsoddi yn eu heiddo ac mewn mannau awyr agored. Galluogodd y

newidiadau i fusnesau aros yn hyfyw ac yn weithredol, a byddant yn cefnogi eu busnes wrth symud ymlaen.

Tlodi Bwyd
Sefydlwyd y pantrïoedd cymunedol fel rhan o'n prosiect, a ariannwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig (LEADER), ar Ganolfannau Cymunedol Cynaliadwy. Newidiwyd ffocws y prosiect ar ddechrau’r pandemig i roi rhyddhad i drigolion o ran mynediad at fwyd fforddiadwy.

Nod y pantrïoedd oedd darparu bag fforddiadwy o fwyd yr wythnos (£5/bag) ac roedd yr incwm yn mynd yn uniongyrchol i dalu costau dosbarthu’r bwyd gan FareShare Cymru a’r tâl aelodaeth yr oedd yn rhaid i bob canolfan ei dalu i FairShare i fod yn rhan o'r cynllun. Roedd gweddill yr arian yn mynd yn syth i'r canolfannau cymunedol i gynorthwyo gyda’u costau oedd yn cefnogi nodau cyffredinol y prosiect i gynorthwyo canolfannau cymunedol i ffynnu a pharhau i ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau.

Ariannodd y Cyngor y pantrïoedd tan fis Hydref 2021 ac maent bellach yn cael eu darparu drwy Gwmni Buddiant Cymunedol (CBC) sydd wedi sicrhau cyllid o nifer o ffynonellau eraill. Mae hon yn stori am lwyddiant gwirioneddol i CBS Pen-y-bont ar Ogwr oherwydd nid yn unig bod y prosiect yn llwyddiannus iawn yn cefnogi cymunedau mewn wardiau gwledig ond wedi mynd ymlaen i barhau ar ôl y cyfnod peilot ac wedi creu CBC a swyddi cysylltiedig. Hyd at Hydref 2021 fe wnaethom gyflenwi 6,037 o fagiau bwyd sy'n cyfateb i tua 53,750 cilogram o fwyd.

Yn ogystal â'r pantrïoedd cymunedol, mae'r Cyngor yn helpu i gefnogi gweithredu cynllun Bocs Bwyd Mawr Llywodraeth Cymru ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae’r cynllun yn cefnogi rhwydwaith o siopau ‘talu fel rydych yn teimlo’ sydd wedi eu lleoli mewn cynwysyddion cludo wedi’u trosi ar dir ysgol. Dan yr enw Prosiect y Bocs Bwyd Mawr, bydd 60 o’r prosiectau hyn yn eu lle ledled Cymru erbyn diwedd 2022 ac ardal Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi derbyn y nifer fwyaf o’r prosiectau hyn mewn un sir – 16 i gyd. Mae'r Bocsys Bwyd Mawr hyn yn darparu bwyd fforddiadwy, i deuluoedd yr ysgol a'r cymunedau ehangach hefyd.

Mae'r Cyngor yn rhan o ddarparwyr y Rhwydwaith Tlodi Bwyd, a gydlynir gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), ac mae wedi gweithio gyda BAVO i ddarparu cronfa grant cyfalaf/refeniw i gefnogi sefydliadau cymunedol sy'n delio â phryderon yn eu hardaloedd.

Mae’r Cyngor hefyd wedi medru cefnogi sefydliadau cymorth tlodi bwyd â chyllid a dynnwyd i lawr o Gronfa Cymorth Cartrefi Llywodraeth Cymru. Mae'r Bocs Bwyd Mawr, Baobab Bach, CBC y Pantrïoedd a Rhwydwaith Banciau Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr i gyd wedi derbyn arian eleni.

Bydd cyllid pellach ar gael drwy’r Cyngor yn y flwyddyn galendr nesaf, yn dilyn dyfarniad o £68,619 gan Gynllun Cymorth Bwyd Uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

Mae’r Cyngor hefyd yn edrych i mewn i ddewisiadau ariannu o raglen Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio darparu cymorth wedi ei dargedu i'r aelwydydd mwyaf agored i niwed i helpu i dalu costau teuluol cynyddol drwy gryfhau ystod o weithgareddau a ddarperir i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Byddai'r cyllid hwn yn cefnogi cydweithio rhwng y Cyngor a'n partneriaid, i ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector a chryfhau partneriaethau bwyd presennol. Bydd y rhain yn helpu i feithrin gwytnwch mewn rhwydweithiau bwyd lleol drwy gydgysylltu gweithgarwch ar lawr gwlad sy’n ymwneud â bwyd sy’n mynd i’r afael â gwraidd achosion tlodi bwyd.

Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr
Drwy raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cyfleoedd hyfforddi, a chynorthwyo ein trigolion yn ôl i waith drwy fentrau fel "Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr" sy'n cefnogi cyfranogwyr difreintiedig ar draws y Cyngor cyfan, waeth beth fo'u lleoliad, drwy gynnig cyfres o ymyriadau sy'n anelu at dorri patrymau diweithdra a thlodi aml-genhedlaeth.

Mae'r cynlluniau'n gweithio'n agos gyda lleoliadau cymunedol ar draws Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau'n lleol sy'n diwallu angen lleol ac yn lleihau costau teithio i drigolion drwy ddod â'r gwasanaeth i'w hardal leol. Yn y 7 mis Rhwng Ebrill 2022 a diwedd Hydref 2022, cynorthwyodd y Tîm Cyflogadwyedd 774 o bobl o Ben-y-bont ar Ogwr i gymryd rhan yn y rhaglen, gan gynnwys 33 o bobl a oedd eisoes mewn gwaith yn cael eu cynorthwyo i wella'u sefyllfa yn y farchnad lafur; Mae 193 o bobl wedi ennill cymwysterau a 239 wedi mynd i mewn i waith.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Della Hughes**
Diolch am yr ymateb, a braf oedd gweld y gefnogaeth sydd ar gael i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr. Gyda'r prisiau ynni yn saethu i fyny ar hyn o bryd croesewir y gefnogaeth gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ond mae llawer yn dal i gael trafferth i wresogi eu cartrefi. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at yr effaith ariannol sylweddol ar ein preswylwyr mwyaf oedrannus a bregus ac yn enwedig y taliadau sy'n ymwneud â mannau cymunedol mewn llety gwarchod fel Llys Gwalia yng Nghwm Ogwr. Bydd y preswylwyr yn awr yn gweld eu taliadau wythnosol ar gyfer y rhan gymunedol yn cynyddu'n sylweddol ac mae hyn ar ben y cynnydd yng nghost ynni yn eu fflatiau eu hunain. Rwyf yn bryderus y gallem weld yr amgylcheddau byw gwych hyn yn mynd yn anfforddiadwy i rai o'n pobl mwyaf agored i niwed. Mae tâl gwasanaeth un preswylydd yn mynd i gael ei godi dros £200 y mis a bydd rhai yn talu ychydig yn fwy a rhai ychydig yn llai. Mae hyn cyn unrhyw gynnydd yng nghost ei fflat ei hun ac unrhyw gynnydd mewn rhent, ac mae'r rhent misol bellach yn fwy nag y mae'n ei gael o bensiwn y wlad. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'r preswylwyr a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn derbyn unrhyw gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo, fodd bynnag, ni fyddant yn fforddiadwy i rai; felly rydym yn ymwybodol o'r broblem hon yn ein llety gwarchod a'n cartrefi nyrsio a beth allwn ni, ynghyd ag asiantaethau eraill, ei wneud i gefnogi'r trigolion bregus hyn."

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cynghorydd Hughes am y cwestiwn a rhannai'r pryderon yn enwedig ynghylch gofal ychwanegol a byw â chymorth a byddai'n edrych i mewn i hyn.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Melanie Evans**
"Ar ôl ymweld ag Ysgol Gynradd Pencoed yn ddiweddar, sylwais fod Siop Gyfnewid gwisg ysgol yno ac roeddwn yn meddwl tybed a allech chi roi gwybod pa gymorth pellach sydd ar gael i Ddysgwyr a rhieni yn y Fwrdeistref Sirol."

Eglurodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau fod y Grant Datblygu Disgyblion yn cynorthwyo ysgolion a rhieni i ddarparu gwisg ysgol i ddisgyblion. Gall rhieni hawlio hyd at £225 ac mewn rhai achosion hyd yn oed mwy. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod arian ar gael i gynorthwyo i brynu citiau ac offer Addysg Gorfforol ysgolion a'i fod wedi'i dargedu at deuluoedd incwm is. Mae'r arian hefyd wedi bod o fudd i blant dros y gwyliau, gyda phrydau ysgol am ddim yn cael eu darparu, oedd wedi helpu dros 6,000 o ddisgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr dros y 2 flynedd ddiwethaf.

**Y Cynghorydd T Thomas i Aelod y Cabinet – Adfywio**
Pa gynlluniau sydd gan Aelod y Cabinet i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi yn ein Bwrdeistref Sirol?

**Ymateb**:
"Mae gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr gyfres o ymyriadau ar waith sydd wedi eu bwriadu i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol ein trefi. Mae nifer yr ymwelwyr ar draws y tair prif dref yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu ers i gyfyngiadau Covid-19 ddod i ben, ac er nad ydynt yn cyrraedd y lefelau cyn y pandemig, mae'r niferoedd yn cynyddu'n gyson.

Dim ond trwy gyfuniad o fuddsoddiad mewn busnesau a menter y gellir cyflawni ein dull o gynyddu nifer yr ymwelwyr; cymorth i fasnachwyr a pherchnogion y stryd fawr; gwelliannau i adeiladau ac amgylchedd canol y dref a chyflwyno ymgyrch farchnata. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'n partneriaid, sefydliadau lleol a masnachwyr, chwarae rhan mewn hyrwyddo a buddsoddi yn ein trefi a'n mentrau lleol.
Mae'r gwaith o hyrwyddo a marchnata canol trefi yn sail i'r holl weithgarwch a buddsoddiad yn ein strydoedd mawr. O dan y brand, Canol Trefi – Pobl | Cymuned | Perthyn, mae nifer o ymgyrchoedd cydlynol wedi cael eu cynnal ar gyfer agendâu penodol; mae'r rhain yn cynnwys fideo hysbysebu ac ymgyrch yn y wasg yn hyrwyddo Diwrnod yr Annibynwyr, oedd yn tynnu sylw at amrywiaeth ac ansawdd yr arlwy o siopa annibynnol sydd gennym yng nghanol ein trefi, gan roi sylw uniongyrchol i fasnachwyr a chynhyrchion lleol.

Cynhaliwyd ymgyrch arall ym mis Mai 2022 yn benodol i gefnogi Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hon yn dathlu canmlwyddiant y farchnad ac yn hyrwyddo'r masnachwyr, tra hefyd yn amlygu'r cyfle i fusnesau newydd gymryd stondin farchnad o dan brosiect Codi a Ffynnu y Cyngor.

Eleni fe wnaethom hyrwyddo ymgyrch 'Treuliwch yr Haf yng nghanol eich tref', oedd yn annog pobl i ymweld â chanol trefi dros fisoedd yr haf a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, oedd yn cael eu cynnal.
Yn yr un modd ar hyn o bryd, rydym yn cynnal ymgyrch 'Gwariwch y Nadolig yng nghanol eich tref', sy'n hysbysebu canol ein trefi fel lleoedd i siopa, cymdeithasu a dathlu dros yr ŵyl. Mae ffilm Nadolig newydd ar sianel You Tube y Cyngor yn dathlu natur wahanol canol pob un o'n tair tref. Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfle i arddangos yn y ffilm rai o'r naw tŷ bwyta sydd wedi newid economi'r nos yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr drwy gynnig amrywiaeth eang o brofiadau coginio.

Mae'r holl waith hyrwyddo hwn i gefnogi busnesau dros gyfnod masnachu hollbwysig y Nadolig, ac ymestyn yr amser y mae pobl yn aros o gwmpas, wedi cael ei ategu gan ymgyrch lwyddiannus iawn ar y cyfryngau cymdeithasol. At hynny, mae gwefan Nadolig Digidol unwaith eto yn rhoi cyfle am ddim i fusnesau gofrestru cynnig, taleb neu gerdyn teyrngarwch ac ymddangos ar Galendr Adfent y wefan.

Mae'r awdurdod wedi gweithio gyda Digwyddiadau Green Top i ddod â rhaglen o farchnadoedd stryd i Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl yn 2022 a bydd yn ychwanegu Maesteg at y rhaglen o farchnadoedd a gynlluniwyd ar gyfer 2023. Mae nifer y bobl ychwanegol sy'n ymweld â chanol tref ar ddiwrnodau marchnad yn amrywio'n sylweddol, ond ar gyfartaledd gwelwn gynnydd o rhwng 2000 a 2500 rhwng y ddwy dref, gyda'r nifer ychwanegol uchaf o ymwelwyr ar ddiwrnodau marchnad wedi ei gofnodi fel 8,035 ym Mhorthcawl.

Mae dod â digwyddiadau i ganol trefi yn cael ei gefnogi gan yr awdurdod drwy ymgysylltu â gweithredwyr digwyddiadau drwy broses ESAG y Cyngor, lle rhoddir cymorth a chefnogaeth i'w helpu i ddatblygu eu digwyddiad. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf mae digwyddiadau'r Nadolig wedi cael eu cynnal ac mae'r awdurdod wedi gweithio ochr yn ochr â Chynghorau Tref a Chymuned a weithiodd yn hynod o galed i gynnal gweithgareddau Nadolig i ddenu ymwelwyr i'n strydoedd mawr.

Mae swm sylweddol o Gymorth Busnes yn digwydd ar draws ein trefi a'n strydoedd mawr, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cynrychioli busnes, gan gynnwys Fforwm Masnachwyr Pen-y-bont ar Ogwr, Cymdeithas Masnachwyr Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr, Siambr Fasnach Porthcawl a Chymdeithas Fusnes Maesteg i ddatblygu a chefnogi syniadau i hybu masnach a busnes.

Daw cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gynnig gwell ar ein strydoedd mawr a gellir gweld tystiolaeth o hyn yn nifer y busnesau newydd sydd wedi agor yng nghanol ein tair tref ers mis Ebrill 2022 – ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae 17 o fusnesau newydd wedi agor, 6 ym Mhorthcawl a 5 ym Maesteg. Yn bwysig, cydnabyddir bod pob un o'r busnesau newydd hyn yn buddsoddi yng nghanol un o'n trefi.

Un o'r ffyrdd arloesol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddenu busnesau newydd yw trwy ei Fynegai Eiddo Canol Tref ar-lein sy'n rhestru'r eiddo sydd ar werth neu i'w gosod yng nghanol tair tref Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Mae'r Mynegai yn dangos manylion cyswllt yr asiantiaid ac yn rhestru peth gwybodaeth am yr eiddo a ddarparwyd gan yr asiantiaid. Mae yna hefyd lun ar gyfer pob eiddo a map yn dangos ei leoliad.

Mae'r awdurdod yn parhau i weithio gyda busnesau newydd ac entrepreneuriaid i ddod â syniadau busnes a mentrau newydd i ganol trefi, gan gyflwyno prosiect Codi a Ffynnu (EAP) ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar. Mae'r prosiect yn gweithio drwy ddatblygu cyfres o fentrau dros dro i greu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a microfusnesau, gyda 18 o fusnesau newydd yn cael eu cefnogi â gwahanol fathau o gymorth.

Mae'r awdurdod hefyd yn parhau i gefnogi cynigion parcio ym Mhorthcawl, ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig parcio am ddim i gael mynediad i'n canolfannau masnachol saith diwrnod yr wythnos. Mae goleuadau LED gwell wedi cael eu gosod ym maes parcio aml-lawr Maesteg i gynyddu diogelwch defnyddwyr fel rhan o brosiectau ewyllys da Neuadd y Dref Maesteg.

Mae cynnydd yn nifer yr ymwelwyr hefyd yn ganlyniad hollbwysig yr holl fuddsoddiadau cyfalaf ariannol mawr a grantiau ar gyfer gwelliannau i eiddo a'r amgylchedd, gan gynnwys gwaith ar Neuadd y Dref Maesteg, lle bydd y llyfrgell yn dod i ganol y stryd fawr ac yn creu canolbwynt cymunedol. Bydd gwaith yn Cosy Corner ym Mhorthcawl yn creu gofod manwerthu a hamdden ychwanegol, y mae angen dybryd amdano, ac mae cais mawr am gyllid hefyd wedi'i gyflwyno i adnewyddu Pafiliwn Porthcawl. Hefyd, mae swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yng Ngholeg Pen-y-bont, i ddod â champws dysgu newydd i ganol y dref. Bydd y prosiect hwn, sy'n werth miliynau o bunnau, ynddo'i hun yn dod â mwy na mil o fyfyrwyr a staff i ganol y dref yn ddyddiol, fydd yn newid proffil demograffig ymwelwyr â chanol y dref. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu nifer yr ymwelwyr dyddiol a'r gobaith yw y bydd yn gatalydd i gynhyrchu gwariant a denu datblygiadau a buddsoddiad newydd.

Fel rhan o Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a Buddsoddiad Adfywio a Dargedwyd yn flaenorol (TRI) rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 22, sicrhawyd a gwariwyd £1,572,620 ar eiddo stryd fawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Maesteg drwy'r rhaglen Gwella Eiddo Canolfannau Trefol. Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio gwariant ar gyflawni gwelliannau ffisegol a chymdeithasol drwy ailddatblygu safleoedd ac adeiladau gwag, o ansawdd gwael, nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon neu sy'n adfeilion, gyda'r bwriad o greu cyfleoedd cyflogaeth; darparu lleoliadau amlwg ac addas ar gyfer defnydd masnachol a manwerthu; diogelu a chynnal ardaloedd siopa lleol, cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref. Gan mai ychydig iawn o eiddo sydd gan yr Awdurdod ar draws ein trefi, mae'r mwyafrif helaeth o'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio fel

cymhelliant, sydd ar gael i gefnogi perchnogion adeiladau a thenantiaid sy'n dymuno bod yn rhan o adfywio eu hamgylcheddau.

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'n datblygwyr tai a'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol, a Llywodraeth Cymru i ddatblygu a buddsoddi mewn tai yng nghanol trefi er mwyn sicrhau bod tai addas ar gael yng nghanol trefi, gan gynnwys darparu grantiau ar gyfer byw uwchben siopau. Bydd sicrhau bod mwy o bobl yn byw o fewn pellter cerdded i'n stryd fawr, yn ogystal â darparu gwasanaethau a hamdden yn ein canolfannau, yn chwistrellu buddsoddiad dyddiol i economi'r stryd fawr.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy gynigion ar gyfer Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi 2022-2025 er mwyn sicrhau y bydd buddsoddiad sydd wedi cael ei anelu at ein prif strydoedd mawr yn cefnogi amrywiaeth o ymyriadau gyda'r bwriad yn bennaf o gynyddu nifer yr ymwelwyr.

Mae mwy o gyfleoedd ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu, cymorth a chyngor ar gyfer y stryd fawr yn cael eu creu o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) 2022 – 2025 newydd, y gellir eu darparu ar draws pob stryd fawr ac ardal fasnachol yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y pecyn buddsoddi sy'n cael ei greu yn cynnwys mwy o grantiau cyfalaf a buddsoddiad ar gyfer eiddo masnachol gwag presennol; cyfres fwy o grantiau busnes a menter; siopau dros dro ac yn y cyfamser defnyddio cyngor a chyllid ar gyfer marchnata a digwyddiadau, i gyd gyda'r bwriad o ddenu ymwelwyr a gweithgarwch i'n strydoedd mawr."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**
**"**Diolch i aelod y cabinet am yr ymateb cynhwysfawr iawn i'm cwestiwn cychwynnol. Un maes y cefais fy synnu braidd na chafodd ei grybwyll o gwbl oedd pwysigrwydd cynyddu nifer yr ymwelwyr i economi'r nos yng nghanol ein trefi, a daw hyn ar adeg pan ddywedodd rhai o'm hetholwyr wrthyf, pan ymwelsant â chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr am bryd o fwyd gyda'r nos, eu bod wedi eu siomi i glywed bod maes parcio'r Rhiw yn cau am 7 p.m. pan fydd Meysydd Parcio Awdurdodau Lleol eraill mewn gwirionedd yn cynnig ychydig mwy o hyblygrwydd i gefnogi economi'r nos.

Felly o ystyried yr un enghraifft hon hoffwn ofyn i aelod y cabinet beth yw ei gweledigaeth wleidyddol bersonol ar gyfer economi nos ddiogel a chynaliadwy yng nghanol ein trefi yn y fwrdeistref sirol."

**Ymateb**
"Diolch i chi, Mr Maer, ac rydw innau'n cytuno'n llwyr â'r Cynghorydd Thomas. Ac mae'n rhywbeth yr ydym wedi ei godi gyda'r Swyddogion ac rydym yn edrych ar ffordd y gallwn ddatrys y mater parcio ceir. Rwyf yn deall y cewch barcio ar y strydoedd ar ôl amseroedd penodol ac felly, er bod maes parcio'r Rhiw yn cau am 7:00 pm, mae mannau parcio ar gael ar y strydoedd ond mae'n fater a godwyd gan aelodau'r ward leol yn ogystal. Felly rydyn ni'n mynd i fod yn edrych arno."

Ychwanegodd yr Arweinydd iddo barcio'n ddiweddar ym maes parcio Stryd Bracla a adwaenir yn gyffredin fel Maes Parcio *Wilkinson's*, sy'n agos iawn i'r dref. Ychwanegodd ei bod yn galonogol gweld y bwyty Groegaidd newydd yn ogystal â'r *Steakhouse* newydd yn agor yn ddiweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr a dymunodd bob llwyddiant iddynt.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Eugene Caparros**
"Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn wir yn dod yn lle i ddod ar gyfer ein tai bwyta gwych ac roeddwn yn falch iawn o weld y steakhouse marmor newydd yn trawsnewid uned o'i gwraidd ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. Felly, os gwelwch yn dda, a gaf i

ofyn pa ran oedd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr mewn cefnogi'r fenter hon a beth arall oeddech chi'n ei wneud i ddangos bod Pen-y-bont ar Ogwr ar agor i fusnes?"

**Ymateb**
Dywedodd Aelod y Cabinet fod *Marble Steakhouse* wedi derbyn £100,000 mewn grantiau gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r rhaglen trawsnewid trefi.

76. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 19:00